# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
# Cynllun Ariannol

# 2013-16

# Cynnwys

1. Pwrpas ..... 3
2. Pa gynnydd ydyn ni'n ei wneud? ..... 4
3. Pa wahaniaeth ydyn ni'n anelu at ei wneud? ..... 6
Ymgysylltu â Phobl Hŷn ..... 6
Cefnogaeth uniongyrchol i bobl hŷn ..... 7
Ein rhaglen waith ar gyfer 2012-13 ..... 8
4. Defnyddio adnoddau'n ddoeth ..... 9
Craffu ..... 9
Mesur perfformiad ac effaith ..... 9
Ymateb i bwysau ariannol ..... 10
5. Cynllunio ariannol ..... 12
Agwedd tuag at risg ..... 12
Asesu risg ariannol ..... 13
6. Edrych i'r dyfodol ..... 15
7. I gloi ..... 16
Atodiad A Amcangyfrif 2013-14 ..... 18
Atodiad B Cynllun Ariannol 2013-2016 ..... 1

# 1. Pwrpas

1.1. Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais annibynnol a hyrwyddwr ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, yn sefyll drostynt ac yn siarad yn groyw ar eu rhan. Mae'r Comisiynydd yn annibynnol ar y Llywodraeth ac yn bennaeth ar Gomisiwn Pobl Hŷn Cymru.

1.2. Caiff holl waith y Comisiwn ei yrru gan yr hyn y mae pobl hŷn yn ei ddweud wrthym sy'n bwysig iddynt. Mae ymgysylltu'n uniongyrchol a pharhaus â phobl hŷn, yn ogystal â'r rheini sy'n eu cynrychioli a'u cefnogi, yn sicrhau bod gwaith y Comisiwn yn adlewyrchu'r materion sydd bwysicaf iddynt ac sy'n cael effaith ar fywydau pobl 60 oed a hŷn yng Nghymru.

1.3. Yn ogystal ag ymgysylltu helaeth â phobl hŷn, mae'r Comisiwn hefyd yn gweithio gydag ystod eang o grwpiau, mudiadau ac unigolion ar draws y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol, gan gynnwys Llywodraethau'r DU a Chymru. Byddwn hefyd yn comisiynu ymchwil benodol sy'n rhoi llais uniongyrchol i bobl hŷn fel bod eu profiadau wrth galon ein gwaith a'r penderfyniadau a wneir gan eraill.

1.4. Gwneir hyn i gyd gan y Comisiwn i sicrhau newid cadarnhaol ac ystyrlon ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

1.5. Nodwyd swyddogaethau'r Comisiynydd yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf). Y ddeddfwriaeth hon yw ein fframwaith llywodraethu, ond yn bwysicach na hynny mae'n galluogi'r Comisiynydd i wneud y canlynol:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- Annog ymarfer gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru.
- Adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

1.6. Bydd y Comisiwn yn bwrw ymlaen â'i waith drwy:

- Sicrhau bod materion sy'n bwysig i bobl hŷn yng Nghymru yn cael eu deall a'u hadlewyrchu yng ngwaith gwneuthurwyr polisi a darparwyr gwasanaeth ledled Cymru.

- Dwyn ynghyd fudiadau a rhanddeiliaid dylanwadol i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio i greu canlyniadau ar gyfer pobl hŷn.

- Cydnabod yr hyn sy'n gweithio'n dda a hyrwyddo ymarfer gorau, ond hefyd lle bo angen adolygu, craffu a nodi disgwyliadau a safonau yn ymwneud â chyflwyno gwasanaeth yn well.

1.7. Bydd y Comisiynydd yn cwrdd â chais Llywodraeth Cymru ac yn ceisio cyllid ariannol net o £1.715 miliwn ar gyfer 2013-14, gostyngiad o 1% o'r hyn a ddyrannwyd yn 2012-13.

1.8. Bydd y Comisiynydd yn gwneud pob ymdrech i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau presennol, ac yn cryfhau'r cysondeb rhwng ein rheolaeth ariannol a mesur ein perfformiad ein hunain. Byddwn yn targedu ein hadnoddau ar y meysydd hynny a fydd yn cael yr effaith mwyaf ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Bydd arbedion ac effeithlonrwydd pellach y tu hwnt i 2013-14 yn gyfyngedig; ni fydd modd i'r Comisiynydd gynnal gostyngiadau pellach mewn cyllid heb i'w gallu i gyflawni ei swyddogaethau statudol er budd pobl hŷn yng Nghymru gael ei effeithio.

# 2. Pa gynnydd ydyn ni'n ei wneud?

2.1. Cyhoeddwyd ein Hadroddiad ar gyfer 2011-12 a'i gyflwyno i'r Prif Weinidog ar 26 Medi 2012 a bwriedir iddo gael ei drafod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Hydref 2012.

2.2. Mae'r adroddiad yn manylu ar y gwaith a wnaed gennym yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodir rhai o’r uchafbwyntiau isod:

- Bu i ni ymateb i dros 700 o ymholiadau a chysylltiadau gan bobl hŷn. Roedd modd i ni ddarparu cymorth mewn llawer

achos, gan helpu i ddatrys sawl gwrthdaro cymhleth yn ogystal â darparu gwybodaeth, eiriolaeth neu gefnogaeth.

- Bu i ni wneud gwaith dilynol ar ein hargymhellion yn dilyn ein Hadolygiad o barch ac urddas mewn ysbytai yng Nghymru. O ganlyniad, bellach ceir archwiliadau urddas dirybudd ar hap mewn ysbytai yng Nghymru a gwneir mwy o benderfyniadau ar lefel ward. Mae pobl yng Nghymru wedi dod yn fwy ymwybodol o'r angen i ddangos urddas a pharch tuag at gleifion hŷn a gwnaed hyn yn flaenoriaeth 'Haen Un' ar gyfer y GIG gan Lywodraeth Cymru.

- Gwnaed ymchwil gennym i brofiadau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal o ran dewis a rheolaeth. Daethom â'u barn hwy ac ymchwil gyfredol ar eiriolaeth ynghyd i ddatblygu argymhellion sy'n canolbwyntio ar bobl hŷn yn yr amgylchiadau hyn. Clywsom yn uniongyrchol gan bobl hŷn drwy gwrdd â hwy mewn cartrefi gofal. Clywsom hefyd gan staff gofal a pherthnasau. Byddwn yn cyhoeddi argymhellion ar gyfer creu newid parhaol yn y ffordd y caiff eiriolaeth ei ddirnad a'i ddeall, a gwella cysondeb ac ansawdd gwasanaethau eirioli annibynnol ledled Cymru.

- Mae gwahaniaethu ar sail oedran yn parhau'n broblem fawr i bobl hŷn. Rydym wedi casglu tystiolaeth o brofiadau a chanfyddiadau pobl hŷn ynghylch gwahaniaethu ar sail oedran a byddwn yn defnyddio hyn i roi llais i bobl hŷn herio agweddau tuag at heneiddio.

- Rydym wedi cael cyhoeddusrwydd helaeth yn y cyfryngau ar gyfer materion sy'n achosi pryder i bobl hŷn drwy gyfweliadau, eitemau nodwedd yn y wasg ac ar y radio a'r teledu. Neilltuodd ITV Cymru raglen i edrych ar y materion yn codi o'n Hadolygiad o barch ac urddas mewn ysbytai.

- Bu i ni ymuno â mudiadau partner i wrthwynebu cynlluniau i roi terfyn ar gynlluniau cludiant cymunedol a werthfawrogir yn fawr ac sy'n cadw pobl hŷn yn egnïol ac yn gallu cael mynd i siopau a chael gwasanaethau a chymryd rhan yn eu cymunedau. Gyda'n gilydd, rydym wedi oedi'r penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i dorri cyllid ac wedi cael ymrwymiad i werthuso manteision y cynlluniau.

- Bu i ni gyfarfod a herio Gweinidogion y DU am bryderon pobl hŷn yng Nghymru ynghylch diwygio pensiynau, credyd pensiwn a budd-daliadau lles. Bu i ni hefyd godi pryderon ynghylch cyllido gofal cymdeithasol a sut y byddai cynlluniau i ymateb i argymhellion Comisiwn Dilnot yn effeithio ar Gymru.

- Bu i ni arwain trafodaeth yn Fforwm Cynghori Llywodraeth y DU ar Heneiddio a bennodd anghydraddoldeb mewn pensiynau merched fel y mater pennaf i'r Gweinidog Pensiynau fynd i'r afael ag ef. Ysgogodd hyn Lywodraeth y DU i ostwng y cynnydd dwy flynedd yn eu pensiwn gwladol i gyfnod o ddeunaw mis, a fu o gymorth i 250,000 o ferched hŷn ledled y DU.

- Ym Mehefin 2011, dyfarnwyd statws Buddsoddwyr mewn Pobl i staff y Comisiwn, sy'n cydnabod yr ymdrechion a wnaed gan staff i weithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

2.3. Mae copïau o Adroddiad Blynyddol 2011-12 ar gael ar ein gwefan www.olderpeoplewales.com

# 3. Pa wahaniaeth ydyn ni'n anelu at ei wneud?

## Ymgysylltu â Phobl Hŷn

3.1. Bydd y Comisiwn yn cwrdd ac yn gwrando ar fwy nac erioed o'r blaen o bobl hŷn, a'r rhai sy'n gofalu amdanynt ac yn eu cefnogi, drwy 'Sioe Deithiol Ymgysylltu' newydd ar hyd a lled Cymru.

3.2. Bydd ein holl staff yn gwrando ar farn pobl hŷn mewn nifer o ffyrdd:

- Drwy ymweld â thros 100 o grwpiau lleol yn cynrychioli ystod amrywiol o bobl hŷn nad ydym wedi cwrdd â hwy o'r blaen.

- Drwy gynnal digwyddiadau 'Cwrdd â'r Comisiwn' mewn lleoliadau cymunedol bob mis.

- Drwy gynnal diwrnodau gwybodaeth ar y cyd bob tri mis ochr yn ochr â mudiadau partner sy'n cefnogi pobl hŷn.

- Drwy weithio mewn partneriaeth i gynnal digwyddiadau penodol yn canolbwyntio ar faterion unigrwydd a bod yn ynysig.

3.3. Byddwn yn gweithio gyda mudiadau eraill, yn benodol y rhwydwaith o gydlynwyr 50+ yng Nghymru a mudiadau gwirfoddol a thrydydd sector, i gynyddu ein gallu i gyrraedd pobl hŷn ledled Cymru a sicrhau ein bod hefyd yn clywed gan eraill sy'n cefnogi pobl hŷn am y materion sydd o bwys iddynt.

3.4. Byddwn yn cynyddu ein gwaith drwy amrywiaeth o gyfryngau i godi ymwybyddiaeth o'r modd y gallwn helpu pobl hŷn yn uniongyrchol, sut y gall pobl hŷn gysylltu â ni, a sut y gallant gymryd rhan yn y gwaith a wneir gennym. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu'n helaeth â phapurau newydd lleol a'r radio.

3.5. Byddwn yn diweddaru ein gwefan a'n llenyddiaeth gan gynnwys ein cyhoeddiadau a'n taflenni.

## Cefnogaeth uniongyrchol i bobl hŷn

3.6. Mae'r Comisiwn yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i bobl hŷn, 60 oed a hŷn drwy ein Tîm Ymholiadau a Chefnogi. Mae'r tîm yn cynnwys chwe aelod o staff sy'n cynorthwyo pobl hŷn a'r rhai sy'n gofalu amdanynt drwy ddarparu gwybodaeth, cefnogaeth ac eiriolaeth.

3.7. Eleni byddwn yn cefnogi pobl hŷn drwy:

- Eu rhoi mewn cysylltiad â mudiadau sydd yn y sefyllfa orau i'w cynorthwyo i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

- Darparu gwybodaeth am wasanaethau yn eu hardaloedd.

- Rhannu gwybodaeth a fydd yn eu cefnogi a'u hannog i chwarae rhan lawn ac effeithiol mewn ymgynghoriadau ar faterion sy'n effeithio arnynt.

- Ymyrryd yn uniongyrchol os ydynt wedi bod yn cael trafferthion gyda darparwr gwasanaeth cyhoeddus neu fudiad sy'n darparu gwasanaethau ar ran corff cyhoeddus.

- Eu cefnogi i wneud cwyn ffurfiol ac yna monitro sut yr ymdrinnir â'r gŵyn.

3.8. Mae ein Tîm Ymholiadau a Chefnogi yn gwneud cyfeiriadau i asiantaethau eraill, i atal dyblygu gwasanaethau yn ogystal â darparu cefnogaeth uniongyrchol ar faterion penodol.

3.9. Mae'r ymholiadau a dderbyniwn yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i bobl hŷn ac yn cynorthwyo i sicrhau bod ein gwaith wedi'i seilio'n gadarn ar eu barn a'u profiadau.

3.10. Ceir achosion pryd y cysylltir â ni ynghylch mater yn ymwneud â diogelwch neu amddiffyn person hŷn ar unwaith. Yn yr amgylchiadau hyn, ein blaenoriaeth bennaf yw diogelwch yr unigolyn dan sylw a chymerir camau i sicrhau hyn.

3.11. Fel rhan o'n hymrwymiad i wneud gwahaniaeth i bobl hŷn, lle bydd gan ymholiad berthnasedd ehangach a photensial i effeithio ar niferoedd mawr o bobl hŷn yng Nghymru gan fod yn sail i ymchwiliad pellach, mwy ffurfiol.

## Ein rhaglen waith ar gyfer 2012-13

3.12. Cyhoeddwyd ein Rhaglen Waith ym mis Medi 2012 ac mae'n rhoi golwg gyffredinol ar brif feysydd gwaith y Comisiwn ar gyfer 2012-13. Dyma’r prif flaenoriaethau:

- Gwahaniaethu ar sail oedran
- Tlodi a phryderon ariannol
- Talu am ofal cymdeithasol, a mynediad at y gofal hwnnw
- Gofalwyr hŷn di-dâl
- Dementia
- Trefniadau eiriolaeth mewn cartrefi gofal
- Gwybodaeth a chyngor
- Amddiffyn a diogelu oedolion
- Urddas a pharch mewn ysbytai
- Heneiddio'n dda yng Nghymru
- Datblygu gwasanaethau cyhoeddus gwell

3.13. Nid yw'r meysydd uchod wedi'u rhestru yn ôl trefn blaenoriaeth a nodir hwy'n fanylach yn ein Rhaglen Waith sydd ar gael ar ein gwefan [www.olderpeoplewales.com](http://www.olderpeoplewales.com)

# 4. Defnyddio adnoddau'n ddoeth

## Craffu

4.1. Rhaid i bobl hŷn yng Nghymru a Llywodraeth Cymru fod â hyder bod yr adnoddau a ddarperir ar gyfer y Comisiwn yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau. Mae'r Comisiwn eisiau dangos effeithlonrwydd y Comisiwn a'r effaith a gawn drwy'r arian a dderbyniwn.

4.2. Ariennir y Comisiwn gan Lywodraeth Cymru ond, yn weithredol, mae'n annibynnol arni ac yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ddefnyddio'i adnoddau.

4.3. Mae'r Comisiynydd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio i'w chefnogi hi fel Swyddog Cyfrifyddu i fonitro ac adolygu llywodraethu corfforaethol, rheolaeth risg a systemau rheoli mewnol. Mae'r pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod annibynnol.

4.4. Bob blwyddyn mae'n ofynnol i'r Comisiynydd gyflwyno adroddiad blynyddol o weithgarwch y Comisiwn yn ffurfiol i Brif Weinidog Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn destun dadl yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a fydd hefyd yn derbyn tystiolaeth gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae ein gwaith hefyd yn destun craffu ehangach gan Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

4.5. Caiff cyfrifon blynyddol y Comisiwn eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru. Rhoddwyd barn ddiamod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â holl gyfnodau'r cyfrifon ers eu sefydlu yn 2008-09 hyd 2011-12 ac ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol yn y Llythyrau Rheoli Blynyddol hyd yma.

## Mesur perfformiad ac effaith

4.6. Rydym yn newid y ffordd yr ydym yn asesu ein perfformiad ein hunain eleni ac yn datblygu set newydd o fesurau perfformiad a fydd yn dangos y gwahaniaeth a wneir gan y Comisiwn i

fywydau pobl hyn ac yn cynnwys mesurau o ran elw ar fuddsoddiad a gwerth am arian. Byddwn yn sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael yn rhwydd.

4.7. Mae'n debygol y canolbwyntir ar gyflwyno'r gwaith a nodir yn ein rhaglen waith, ein hymgysylltu â phobl hŷn, ac i ba raddau y dylanwadwn ar bobl eraill i wrando ar lais pobl hŷn a'r modd y dangoswn stiwardiaeth dda fel corff cyhoeddus.

4.8. Byddwn yn dirprwyo cyfrifoldeb a rheolaeth gyllidol i lawr ymhellach yn y Comisiwn, ac fel rhan o hyn byddwn yn cyflwyno dull cyllido rhaglen i fonitro'n fwy cywir a ydym yn targedu ein hadnoddau ar y meysydd hynny lle y gallwn gyflawni'r effaith fwyaf ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

## Ymateb i bwysau ariannol

4.9. Pan ffurfiwyd y Comisiwn cytunwyd dyraniad cyllid 3-blynedd gan Lywodraeth Cymru o £5 miliwn gyda £1.8 miliwn wedi'i ddyrannu yn 2010-11, gan nodi'r gofyniad o ran cyllid net ar gyfer sefydliad cwbl weithredol.

4.10. O ganlyniad i Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr Llywodraeth y DU a phenderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar sut y byddai'r cyllid a oedd ar gael ar gyfer Cymru'n cael ei ddyrannu, mae'r Comisiynydd eisoes wedi llwyddo i reoli gostyngiadau yn y cyllid sydd ar gael i'r mudiad, fel y nodir isod:

| Blwyddyn Ariannol | Dyraniad Cyllid £M |
|---|---|
| 2010-11 | 1.8 |
| 2011-12 | 1.747 |
| 2012-13 | 1.732 |
| 2013-14 a blynyddoedd yn y dyfodol | 1.715 |

4.11. Bydd y camau a gymerir gan y Comisiynydd yn anelu at sicrhau bod y rheoliadau mwyaf effeithlon ac effeithiol yn eu lle i reoli gwariant ariannol. Mae'r camau a gymerwyd hyn yma, sy'n cael eu harddel o hyd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- **Cydweithio â mudiadau eraill**

Mae'r Comisiwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid mewn mudiadau'r sector cyhoeddus yn y trydydd sector ac mewn swyddi eraill yn y sector gwirfoddol i osgoi dyblygu gwaith eraill.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi nodi cyfleoedd ar gyfer cronni adnoddau - pobl ac arian - pan fo'n briodol, a chydweithio gyda mudiadau partner i gyflawni amcanion ar y cyd.

Rydym wedi defnyddio'r cyfle i annog ein staff i gwrdd â'r rhai sy'n gweithio mewn mudiadau eraill, i sicrhau y rhennir arfer da ac y gwneir y gorau o gyfleoedd i gydweithio. Mae'r Comisiwn wedi gweithio'n llwyddiannus gyda staff ar secondiad o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a bydd yn parhau i fanteisio ar gyfleoedd o'r fath i lenwi unrhyw swyddi allai godi.

- **Adrodd a monitro gwariant**

  Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer deiliaid cyllidebau i sicrhau y caiff cyllidebau, gwariant a dealltwriaeth o amrywiaethau eu monitro a'u hadolygu'n drwyadl.

  Bydd ein harchwilwyr mewnol yn adolygu ein rheolaeth ym maes allweddol rheoli cyllidebau bob blwyddyn fel rhan o'u rhaglen waith, er mwyn bod yn wyliadwrus o ran hunanfoddhad a sicrhau cydymffurfiaeth.

- **Rôl archwilwyr mewnol ac allanol**

  Rhoddwyd sicrwydd gan Bwyllgor Archwilio'r Comisiwn y bydd unrhyw argymhellion a wneir mewn adroddiadau gan archwilwyr mewnol ac allanol yn cael eu gweithredu'n gyflym i wella'r amgylchedd rheoli ariannol.

- **Caffael**

  Byddwn yn profi'r farchnad yn rheolaidd drwy ddefnyddio tendro cystadleuol ar gyfer darparu gwasanaethau a chyflenwadau i'r Comisiwn.

- **Hyfforddiant staff**

Darparwyd hyfforddiant i staff y Comisiwn ar ymwybyddiaeth ariannol gyffredinol, ymwybyddiaeth o dwyll, rheoli cyllidebau, Deddf Llwgrwobrwyo a defnyddio gweithdrefnau rheolaeth ariannol, yn enwedig gofynion caffael. Byddwn yn parhau i ddarparu diweddariadau ar hyfforddiant.

# 5. Cynllunio ariannol

5.1. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd gyflwyno cyllideb flynyddol (yr Amcangyfrif) i Weinidogion Cymru fel sy'n ofynnol dan baragraff 9(2) Atodlen 1, Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'n nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau statudol y Comisiynydd a'r cyllid net cysylltiedig y rhagwelir fydd ei angen gan Lywodraeth Cymru.

5.2. Mae'r Amcangyfrif am 2013-14 wedi'i gynnwys yn Atodiad A. Hefyd nodwyd gofyniad adnoddau dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod i hwyluso proses gynllunio cyllidebau Llywodraeth Cymru, ac fe'i cynhwysir yn Atodiad B.

5.3. Mae'r Comisiynydd yn arwain tîm rheoli o dri uwch reolwr a 22 aelod arall o staff. Cyflawnir gwaith y comisiwn yn bennaf gan y staff hwn. Yn achlysurol bydd y Comisiwn yn contractio gyda darparwyr allanol sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd perthnasol sydd eu hangen; mae hyn fel arfer i wneud gwaith ymchwil mewn maes penodol.

5.4. Mae cyllideb y Comisiwn hefyd yn ariannu costau rhedeg Swyddfa'r Comisiwn. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y Cyfrifon Blynyddol a gyhoeddir ar ein gwefan www.olderpeoplewales.com

## Agwedd tuag at risg

5.5. Mae cynllunio ariannol da yn galw am weledigaeth glir, amcanion gosodedig, canfod ac asesu risgiau a chyfleoedd a phenderfynu ar flaenoriaethau. Wrth gwrs ceir rhai elfennau o ansicrwydd ynghlwm ag unrhyw broses gyllidebu a chynllunio, hyd yn oed am un flwyddyn ac mae hynny'n cynyddu wrth i'r cyfnod fynd yn hwy.

5.6. Mae rheoli risg yn rhan annatod o weithrediad y Comisiwn. Mae prosesau rheoli risg y Comisiwn yn canfod a rheoli risgiau sy'n effeithio ar y Comisiwn, yn edrych hefyd ar y cyfleoedd a allai

godi, ac yn gosod rheolaeth yn ei lle i ddiogelu'r Comisiwn rhag canlyniadau risg.

5.7. Mae gan holl staff y Comisiwn beth cyfrifoldeb dros reoli risg a rheolaeth fewnol er mwyn cyflawni eu hamcanion unigol a nodau ac amcanion cyffredinol y Comisiwn.

5.8. Mae agwedd gadarnhaol tuag at reoli risg yn golygu y bydd y Comisiwn yn edrych nid yn unig ar y risg i bethau fynd o chwith, ond hefyd effaith peidio â chymryd cyfleoedd neu beidio â manteisio ar gryfderau corfforaethol.

## Asesu risg ariannol

5.9. Mae'r adnoddau sydd ar gael i'r Comisiynydd yn gyfyngedig ac er mwyn symud ymlaen tuag at wireddu ein hamcanion, rhaid i'r Comisiwn, fel cyrff eraill sy'n derbyn cyllid cyhoeddus, flaenoriaethu ei gynlluniau gwariant ar gyfer 2013-14.

5.10. Nodir isod y risgiau ariannol sylweddol i'r Comisiwn eu rheoli yn 2013-14 a'r blynyddoedd i ddod:

- Canfyddiad o aneffeithlonrwydd
  Mae'n hanfodol i'r Comisiwn allu dangos a chyfleu'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud i fywydau pobl hŷn. Mae hyn yn ofyniad sylweddol gan fod 712,281 o bobl 60 oed a hŷn yn byw yng Nghymru.

  Nid yw pobl hŷn yn grŵp unffurf. Maent yn unigolion gydag ystod eang o anghenion a disgwyliadau. Mae ein rhaglen waith yn adlewyrchu'r amrywiaeth hon ac yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â disgwyliad oes, amddifadedd, iechyd a gofal cymdeithasol, rôl gofalwyr, byw ar incwm sefydlog, cludiant, a llawer mwy.

  Ein nod yw sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu'r hyn y mae pobl hŷn yng Nghymru angen i ni ei wneud drostynt. Efallai na fydd hyn bob amser yn gyfystyr â'r hyn y mae pobl a mudiadau eraill yn ei ddisgwyl gan y Comisiwn.

  Mae angen i ni barhau i godi ymwybyddiaeth o'r Comisiwn tra'n blaenoriaethu'r gwaith y mae modd i ni ei wneud gyda'r adnoddau prin sydd ar gael i ni.

- Gostyngiad yn ein cyllid
  Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllid o £1.732M ar gyfer 2012-13. Mae’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi lefel gyllido o £1.715M ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

  Mae cymeradwyo cwmpas cyllido am dymor canolig yn caniatáu cyfle a gallu i'r Comisiwn gynllunio'n effeithiol o un flwyddyn i'r llall a sicrhau y gellir cynnal gweithgareddau cysylltiedig â'i swyddogaethau statudol o un flwyddyn i'r llall gan gynnwys dilyn i fyny ar argymhellion a wnaed ac arweiniad a gyhoeddwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

  Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd yn cynyddu gan oddeutu 306,000 neu 55% rhwng 2012 a 2035. Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu hefyd bod pobl hŷn mewn perygl o gael eu heffeithio'n ormodol gan effaith gostyngiadau mewn cyllidebau a wneir gan Lywodraethau Cymru a'r DU. O'r herwydd mae'r Comisiwn yn rhagweld cynnydd yn y galw am ein gwasanaethau cefnogi uniongyrchol a chynnydd yn y tebygolrwydd i'r Comisiwn graffu ar y penderfyniadau a wneir gan gyrff eraill gan ymyrryd pan fo angen.

  Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i rannu ein hadnoddau a gweithio mewn partneriaeth er mwyn lleihau i'r eithaf effaith gostyngiadau yn ein dyraniad cyllid. Fodd bynnag, fel sefydliad gweddol fychan ac ifanc, ychydig iawn sydd o'r aneffeithlonrwydd strwythurol sy'n tueddu i wreiddio mewn sefydliadau dros gyfnodau hwy o amser. Mae’n annhebygol felly y bydd y Comisiynydd yn cael fawr o fanteision o arbedion maint.

- Argaeledd balansau arian ar gyfer y blynyddoedd i ddod
  Gall y Comisiwn gwrdd â'i rwymedigaethau rheolaidd o'i ddyraniad ariannol blynyddol. Ni ddibynnir ar gyllid achlysurol i gynnal costau staff na chostau rhedeg ymrwymedig y sefydliad.

  Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar beidio â chael unrhyw ostyngiadau pellach yn ein dyraniad cyllid.

Mae cynllun yn ei le i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ariannol a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd blaenorol i ychwanegu at waith y Comisiwn ar sail achlysurol.

Bydd unrhyw falansau ariannol fydd heb eu defnyddio ar ddiwedd 2012-13 yn cael eu trosglwyddo i gefnogi gweithgareddau yn 2013-16.

5.11. Mae'r Comisiwn yn anelu at reoli risgiau corfforaethol drwy:

- hyrwyddo diwylliant mwy arloesol, llai gwrth risg lle yr anogir cymryd risgiau wedi'u mesur a'u rheoli er mwyn ceisio cyfleoedd fydd o fudd i'r Comisiwn a Phobl Hŷn yng Nghymru.
- gwella ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.
- sicrhau amgylchedd diogel i staff weithio ynddo.
- adeiladu ar sail gadarn rheoli risg integredig a rheolaeth fewnol fel rhan o lywodraethu corfforaethol da.

# 6. Edrych i'r dyfodol

6.1. Mae'r Comisiwn ym mlwyddyn olaf ein Cynllun Strategol 2010-13 cyfredol. Rydym yn y broses o ddatblygu ein strategaeth pedair blynedd newydd, a fydd yn nodi ein blaenoriaethau i'r dyfodol ar gyfer y blynyddoedd i ddod o Ebrill 2013. Cefnogir hyn wedyn gan raglenni gwaith gweithredol treigl.

6.2. Er mwyn rhoi cyfle i bobl hŷn ac eraill roi sylwadau ar ein blaenoriaethau i'r dyfodol, byddwn yn ceisio barn ar ein cyfeiriad i'r dyfodol drwy ymgynghori cyhoeddus a gynhelir yn ystod hydref 2012.

6.3. Rydym wedi bod yn gofyn y cwestiynau canlynol i bobl hŷn:

- Beth yw'r pethau gorau am heneiddio yng Nghymru?
- Beth yw'r pethau gwaethaf am heneiddio yng Nghymru?

- Pe byddai modd i ni newid tri pheth ar eich rhan, beth fyddai'r rheini?

6.4. Rydym wedi bod yn gofyn i'r rhai sy'n gweithio ar ran pobl hŷn yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a'r trydydd sector am adborth ynghylch beth sy'n bwysig i'w mudiad a'r bobl hŷn y maent yn eu cynrychioli:

- Beth yw tair prif flaenoriaeth eich mudiad yn ymwneud â phobl hŷn?

- Beth sy'n eich rhwystro fwyaf ac yn eich atal rhag cyflawni newid ar gyfer pobl hŷn?

- Sut allai Comisiwn Pobl Hŷn gynorthwyo i ychwanegu gwerth at eich mudiad a'i waith?

# 7. I gloi

7.1. Bydd y Comisiwn yn cwrdd â chais Llywodraeth Cymru ac yn ceisio cyllid ariannol net o £1.715 miliwn ar gyfer 2013-14, gostyngiad o 1% o'r hyn a ddyrannwyd yn 2012-13.

7.2. Mae'r Comisiwn yn sefydliad ifanc, ac nid oes ganddo ddim o'r aneffeithlonrwydd strwythurol sy'n tueddu i wreiddio mewn sefydliadau dros gyfnodau hwy o amser. Mae'r Comisiwn hefyd yn sefydliad bychan (25 o staff ar hyn o bryd) felly ni fydd yn cael fawr o fudd o arbedion maint.

7.3. Paratowyd yr Amcangyfrif gan gydnabod y pwysau ariannol y mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru a dinasyddion Cymru yn eu hwynebu. Mae'r Comisiwn yn rhagweld y bydd cynnydd yn y galw a roddir ar y Comisiwn i weithredu a chefnogi pobl hŷn yng Nghymru yn 2013-14 ac yn y blynyddoedd i ddod.

7.4. Mae Adroddiad Blynyddol y Comisiwn yn nodi mai rôl y Comisiwn yn ystod y cyfnod heriol hwn fydd gweithredu'n annibynnol ar y llywodraeth a mynd i'r afael â thlodi eithafol a brofir gan bobl hŷn, diogelu gwasanaethau sy'n hyrwyddo annibyniaeth a lles ac amddiffyn y rhai sydd yn y sefyllfaoedd mwyaf agored i niwed.

1.9. Bydd y Comisiynydd yn gwneud pob ymdrech i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau presennol, ac yn cryfhau'r cysondeb rhwng ein rheolaeth ariannol a mesur ein perfformiad ein hunain. Byddwn yn targedu ein hadnoddau ar y meysydd hynny a fydd yn cael yr effaith mwyaf ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Bydd arbedion ac effeithlonrwydd pellach y tu hwnt i 2013-14 yn gyfyngedig; ni fydd modd i'r Comisiynydd gynnal gostyngiadau rheolaidd pellach mewn cyllid heb i'w gallu i gyflawni ei swyddogaethau statudol er budd pobl hŷn yng Nghymru gael ei effeithio.

# Atodiad A Amcangyfrif 2013-14

Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd gyflwyno Amcangyfrif blynyddol i Weinidogion Cymru fel sy'n ofynnol dan baragraff 9(2) Atodlen 1, Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'n nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau statudol y Comisiynydd a'r cyllid net cysylltiedig y rhagwelir fydd ei angen gan Lywodraeth Cymru.

Yna mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno'r Amcangyfrif, gyda neu heb addasiadau, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel sy'n ofynnol dan baragraff 9(3) Atodlen 1, Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Nodir Amcangyfrif 2013-14 y Comisiynydd Pobl Hŷn isod.

| **Disgrifiad** | **Amcangyfrif 2013-14**<br><br>**£** |
|---|---:|
| **Gwariant:** | |
| Costau cyflogi | 1,440,603 |
| Costau llety | 142,727 |
| Costau swyddfa | 41,753 |
| Costau TGCh | 33,557 |
| Cyfathrebu | 56,500 |
| Costau rhedeg eraill | 65,137 |
| Rhaglenni Gwaith | 105,000 |
| Wrth gefn | 50,000 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **1,935,277** |
| Llai: | |
| Defnydd o falans ariannol a ddygwyd ymlaen | 218,413 |
| Eitemau heb fod yn rhai arian parod | 1,864 |
| **Gofyniad ariannol net** | **1,715,000** |

**Nodiadau:**

**Costau cyflogi**

Cyflogir 25 o staff gan y Comisiwn ar hyn o bryd. Mae'n annhebygol y bydd niferoedd staff yn cynyddu'n sylweddol yn y dyfodol. Bydd y rhan

fwyaf o benodiadau ychwanegol yn rhai am gyfnodau penodol i gefnogi amcanion a rhaglenni gwaith penodol. Ariennir swyddi o'r fath o falansau ariannol achlysurol.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi penodi pedwar aelod i'r Pwyllgor Archwilio, a chynhwysir eu costau dan y pennawd hwn. Mae costau cyflogi hefyd yn cynnwys pob gwariant ar hyfforddi a threuliau.

Ni thalwyd unrhyw ddyfarniad costau byw (codiad cyflog) i staff ers 2010-11. Dyfarnwyd codiadau cynyddrannol lle y nodwyd hwy mewn cytundebau contractaidd.

I ddibenion cyllidebu yn unig, gwnaed tybiaeth i ganiatáu codiad cyflog o 1% mewn blynyddoedd i ddod. Nid yw'r Comisiynydd yn argymell y codiad hwn eto a bydd yn ystyried codiadau cyflog a ddyfernir i eraill sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru cyn dod i benderfyniad.

Pennir cyflog y Comisiynydd gan Weinidogion Cymru. Ni thybiwyd unrhyw godiadau chwyddiant ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

**Costau llety a swyddfa**

Mae costau llety a swyddfa'n cynnwys gwariant ar rent, trethi, diogelwch, cyfleustodau, deunydd ysgrifennu ac yswiriant. Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu dull gweithredu darbodus ar gyfer caffael deunyddiau traul i'r swyddfa a bydd yn parhau i chwilio am arbedion yn y maes hwn.

Mae'r Comisiwn yn rhedeg un swyddfa yn unig, mae'r amodau prydlesu'n sefydlog am bum mlynedd ac fe'u hadolygir yn 2013-14. Bydd adolygiad y brydles yn cynnwys asesiad cadarn o anghenion y Comisiwn i'r dyfodol ac o werth am arian. Mae prisiau'r farchnad rhenti ar hyn o bryd yn eithaf cyfnewidiol ac mae hyn yn risg i'r Comisiwn ei reoli yn y dyfodol, na ellir ei fesur ar hyn o bryd. Cymerir cyngor proffesiynol priodol gan arbenigwyr ym maes rheoli ystadau i gefnogi'r Comisiwn wrth wneud penderfyniadau.

Roedd Mynegrif Prisiau Manwerthu yng Ngorffennaf 2012 yn 3.2%, gyda Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 2.6%. Mae llawer o ansicrwydd o ran rhagolygon chwyddiant i'r dyfodol a bydd yn rhaid i'r Comisiwn fonitro'r effaith ac 'amsugno' unrhyw bwysau o ran costau ychwanegol a allai godi.

**Offer TGCh a chynnal a chadw**

Mae'n annhebygol y bydd gwariant TGCh yn codi uwchben lefelau presennol sy'n cynnwys contractau cynnal a chadw ar gyfer systemau presennol. Rydym wedi cyflwyno rhaglen dreigl o adnewyddu TGCh dros y 3-5 mlynedd nesaf yn seiliedig ar angen busnes allweddol.

Nid oes gan y Comisiwn raglen cyfalaf sylweddol yn ei lle. Byddai unrhyw uwchraddio ar systemau TGCh presennol yn fuddsoddiad sylweddol ar gyfer sefydliad o'n maint ni. Byddai angen i unrhyw benderfyniad gael ei asesu yn erbyn blaenoriaethau eraill gan gynnwys yr adolygiad prydles a nodwyd uchod.

**Cyfathrebu ac Ymgysylltu**
Un o'r swyddogaethau yn y Ddeddf yw hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru. Mae gwariant ar ymgysylltu a chyfathrebu felly'n hanfodol i gyrraedd pobl hŷn ledled Cymru er mwyn i'r Comisiwn ddarparu'r cymorth mwyaf priodol yn brydlon.

**Costau rhedeg eraill**
Byddai costau rhedeg eraill yn cynnwys gwariant ar ffioedd archwilio, costau cyfieithu, ffioedd cyfreithiol yn ogystal â chostau dibrisiant ac amorteiddio.

Mae costau dibrisiant yn gostwng yn sylweddol yn 2013-14 wrth i'r rhan fwyaf o asedau a brynwyd yn 2008 ddibrisio'n llwyr. Nid yw'r gostyngiad hwn mewn cost yn gynaliadwy gan y bydd angen prynu asedau newydd ar ryw bwynt yn y dyfodol er y bydd hynny ar sail busnes allweddol a rhaglen dreigl.

**Rhaglenni Gwaith**
Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi ein rhaglen waith a gyflwynir yn bennaf drwy'r staff cyflogedig. Bydd gwariant ychwanegol ar sail achlysurol i gasglu tystiolaeth, gwneud ymchwil a chyhoeddi canfyddiadau a chyfarwyddyd. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol ond ddim yn gyfyngedig iddynt:

- Sefydlu rhwydwaith pobl hŷn
- Ymchwil i Leisiau Pobl Hŷn
- Rhaglen Heneiddio'n Dda
- Rhaglen Lles

**Cronfa wrth gefn**
Dyrannwyd cronfa wrth gefn i ddibenion gweithredol cyffredinol ac ar gyfer darparu cymorth, adolygiadau ac archwiliadau annisgwyl i bobl hŷn

yng Nghymru. Y dybiaeth sylfaenol yw y bydd unrhyw falansau ariannol fydd heb eu defnyddio ar ddiwedd 2012-13 yn cael eu trosglwyddo i gefnogi gweithgareddau yn 2013-16.

Mae'r Comisiwn wedi cytuno'n flaenorol â Llywodraeth Cymru yr angen i gadw lefel resymol o gyllid wrth gefn er mwyn ymarfer y swyddogaethau statudol a gynhwysir yn y Ddeddf, ond yn bwysig iawn, i weithredu ar faterion annisgwyl, brys a phwysig a ddygir i'n sylw gan bobl hŷn yng Nghymru ynghylch y gwasanaethau a dderbyniant.

Mae costau ychwanegol o'r fath yn debygol o fod yn gysylltiedig ag achosion cyfreithiol, adnoddau staff ychwanegol a darparu mathau eraill o gymorth i bobl hŷn fel y nodir yn y Ddeddf.

Mae gostyngiadau rheolaidd mewn cyllid yn golygu bod y gronfa wrth gefn hon bellach yn cael ei hariannu drwy adnoddau cyllid achlysurol. Os canfyddir gofynion cyllido pellach, bydd y Comisiynydd yn ymgysylltu â Gweinidogion ar y cyfle cyntaf posibl.

**Eitemau heb fod yn rhai arian parod**

Mae hwn yn ymwneud â'r costau hynny lle y codir tâl ar y cyfrif gwariant ond na wneir taliad e.e. dibrisiant ac amorteiddio.

# Atodiad B Cynllun Ariannol 2013-2016

## Cynlluniau Ariannol 2013-16

| **Disgrifiad**<br>***Ffigurau dangosol yn unig** | **Amcangyfrif 2013-14**<br>**£** | **Amcangyfrif 2014-15***<br>**£** | **Amcangyfrif 2015-16***<br>**£** |
|---|---|---|---|
| **Gwariant:** | | | |
| Costau cyflogaeth (1) | 1,440,603 | 1,400,767 | 1,377,148 |
| Costau llety | 142,727 | 147,397 | 148,407 |
| Costau swyddfa | 41,753 | 42,537 | 39,248 |
| Costau TGCh | 33,557 | 35,125 | 36,456 |
| Cyfathrebu | 56,500 | 56,500 | 56,500 |
| Costau rhedeg eraill | 65,137 | 66,803 | 68,608 |
| Rhaglenni Gwaith | 105,000 | 75,000 | 65,000 |
| Wrth gefn | 50,000 | 45,000 | 40,000 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **1,935,277** | **1,869,129** | **1,831,367** |
| Llai: | | | |
| Defnydd o falans ariannol a ddygwyd ymlaen | 218,413 | 152,937 | 115,301 |
| Eitemau heb fod yn rhai arian parod | 1,864 | 1,192 | 1,066 |
| **Gofyniad ariannol net** | **1,715,000** | **1,715,000** | **1,715,000** |

**(1) Costau cyflogaeth yn cynnwys gwariant ar swyddi ar secondiad sy'n cael eu hariannu fel rhai tymor sefydlog h.y. achlysurol.**